

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun, 11 Ionawr 2021 am 7:00p.m trwy gyfrwng Zoom.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Jim Bryan, Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts a Heather Williams.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. ETHOL CADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd fod y Cynghorydd Gavin Harris yn parhau fel Cadeirydd y Pwyllgor Amwynderau am weddill y flwyddyn ddinesig.

PENDERFYNWYD: yn unfrydol ethol y Cynghorydd Gavin Harris yn Gadeirydd am weddill y flwyddyn ddinesig.

3. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorwyr Jim Bryan ac Anne Roberts ddatgan buddiant gan eu bod wedi bod yn rhan o'r trafodaethau dechreuol ynghylch prosiect adfer Cloc y Dref.

4. CYLCH GWAITH

Adolygodd yr Aelodau Gylch Gwaith y Pwyllgor. Awgrymwyd y dylid dangos dyddiad mabwysiadu a dyddiad yr adolygiad nesaf yn nhroednodyn y dudalen yn cynnwys y Cylch Gwaith yn ogystal ag ar y dudalen flaen.

PENDERFYNWYD: mabwysiadu Cylch Gwaith y Pwyllgor.

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021 yn gywir.

6. MATERION YN CODI

Cyfeiriodd aelod at y cais am estyniad i'r dyfarniad statws Croesawu Bysiau Moethus. Y Clerc i fynd ar drywydd hyn.

116. PRIS COEDEN LLWYBR CELF

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y pris a ddarparwyd gan Wasanaeth Coed Cymru, am £332 + TAW am gyflenwi coeden newydd 3-4 troedfedd o uchder a £30 + TAW petai angen system ddyfrio'r gwreiddiau. Roedd y llythyr nodi fod y pris yn ddilys tan 15 Ionawr 2021 gan fod disgwyl i brifiau gynyddu oherwydd tywyd anffafriol yn gynharach yn y flwyddyn yn achosi diffyg cyflenwad.

Gofynnodd y Cynghorydd Heather Williams a gafwyd unrhyw brisiau eraill a chadarnhaodd y Clerc nad chafwyd ymateb gan y cwmnïau eraill y cysylltwyd gyda nhw.

PENDERFYNWYD: derbyn y pris £332.00 + TAW am y goeden newydd a £30 + TAW am y systemn dyfrio'r gwreiddiau, petai'n ofynnol, gan Wasanaethau Coed Cymru.

117. GOLEUADAU NADOLIG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried p'un ai i ddychwelyd y goleuadau gan fod y cyfnod llogi wedi dod i ben ar gost o £1,800.00 + TAW neu ymestyn y cyfnod llogi am 12 mis arall ar yr un pris â 2020, sef £3,1571.71 + TAW. Roedd yr aelodau o'r farn fod y goleuadau'n chwaethus ac yn gweddu i Rhuthun.

PENDERFYNWYD: ymestyn cyfnod llogi'r goleuadau presennol am 12 mis arall.

9. CYNLLUN GRANT YMATEB CANOL TREFI I COVID-19

Dosbarthwyd manylion y cynllun grant i holl aelodau'r Cyngor yn flaenorol, a dosbarthwyd papur yn nodi eitemau arfaethedig y gellid eu cyflwyno ar gyfer cyllid grant gan y Cadeirydd. Roedd yr eitemau'n cynnwys meinciau, mynegbyst i gyfeirio cerddwyr a beicwyr at atyniadau'r dref a ffownten ddŵr wrth ddrws cefn yr Hen Lys. Y dyddiad cau ar gyfer y grant £12k, gyda 25% ariannu

cyfatebol, yw 22 Ionawr, gyda cheisiadau llwyddiannus i ddangos tystiolaeth o wario'r grant erbyn 8 Mawrth 2021. Roedd yr aelodau'n cytuno gyda'r egwyddor o gael mainc ar Stryd Clwyd, ond yn dymuno cadw lleoliad cofeb goffal Tom Pryce heb ei darfu. Cytunwyd i gynnal trafodaethau gydag Adran Strydlun Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y lleoliad mwyaf addas ar gyfer main car Stryd Clwyd.

PENDERFYNWYD: *cynnal rhagor o wait har y costau a lleoliadau potensial cyn cyflwyno'r cais erbyn 22 Ionawr, gyda'r cyllid cyfatebol i ddod o'r gyllideb Amwynderau.*

10. PROSIECT ARFAETHEDIG ADFER CLOC Y DREF

Anfonwyd papur briffio a ffotograffau at yr aelodau ynghylch y prosiect arfaethedig, a fyddai'n eitem agenda yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr. Dywedodd y Cynghorwyr Anne Roberts a Jim Bryan, a oedd wedi bod yn ymwneud â'r trafodaethau dechreuol, mai'r bwriad oedd gwneud cais am gyllid o amrywiol ffynonellau i alluogi'r prosiect fwrw ymlaen, er mwyn sicrhau cadwraeth y nodwedd hwn ar sgwâr y dref.

PENDERFYNWYD: *fod yr aelodau'n cefnogi'r prosiect arfaethedig.*

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 8 Chwefror 2021 am 7pm.*